Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

# CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
# Aelodau Myfyrwyr
# Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
# DYDD IAU 23AIN TACHWEDD, 2017
# 18:00, Y NEUADD FAWR, UNDEB Y MYFYRWYR

AGENDA


1. Croeso

2. Cofnodion o CCB 2016 T2

3. Polisïau'n dod i Ben T12

4. Adroddiad Blynyddol 16/17 T13

5. Adroddiad Ariannol 16/17 T14

6. Ymlyniadau T21

7. Cwestiynau agored i'r Ymddiriedolwyr

8. Cynigion a Gyflwynwyd

I. Myfyrwyr Mwslimaidd i gael eu cynrychioli'n well gan Undeb y Myfyrwyr T22
II. Gwneud Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn gyflogwr cyflog byw T23
III. Ymgynghori â myfyrwyr ar bob lefel: Sedd ar BGP T25
IV. Cymorth ariannol gwirioneddol i fyfyrwyr ôl-raddedig mewn angen T27
V. Newidiadau i IL Cymdeithasau a IL Lles T29

9. Hysbysiad o Etholiadau

10. Unrhyw Fusnes Arall

# EITEM DAU

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
Aelodau Myfyrwyr
DYDD IAU 24AIN TACHWEDD, 2016
18:00, Y NEUADD FAWR, UNDEB Y MYFYRWYR

| Eitem ar yr Agenda | Nodiadau |
|---|---|
| 1 | **Croeso**<br><br>Croesawodd KB fyfyrwyr i'r cyfarfod ac esbonio cynnwys a thrafodion. Annog myfyrwyr i aros am y cyfarfod i gyd a dweud bod myfyrwyr yn gallu cyfrannu yn Saesneg ac yn Gymraeg. Esbonio y gellir cyflwyno cynigion trefniadol. |
| 2 | **Cofnodion o CCB 2015**<br><br>*Cymeradwyo Cofnodion* |
| 3 | **Polisïau'n dod i Ben**<br><br>Llais Myfyrwyr – 2013<br>Addewid Amser i Newid – 2013<br>Myfyrwyr Moslemaidd i gael eu cynrychioli'n well gan Undeb y Myfyrwyr – 2013<br>Diwygio rôl Swyddog y Gymraeg – 2013<br>Polisi Dwyieithrwydd – 2013<br><br>Esboniodd KB y gall hyn gael ei ailgyflwyno ar Senedd y Myfyrwyr. |
| 4 | **Adroddiad Blynyddol 15/16**<br><br>Eglurodd Sophie Timbers (ST) bod Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd (UMPC) yn annibynnol o Brifysgol Caerdydd a disgrifiodd rhai o'r llwyddiannau sydd ar gael ar wefan undeb y myfyrwyr.<br><br>Gofynnodd John Panker pam bod Gosod Tai Myfyrwyr Caerdydd yn dweud mai nhw yw'r unig asiant sydd ddim yn codi ffioedd. |

| | |
|---|---|
| | Atebodd ST mai dyma'r achos fel y cynghorir gan ddeunydd hyrwyddo ond ymchwilir i mewn i hyn a pheidio â'i hyrwyddo os nad yw'n wir.<br><br>Gofynnodd Matthew Procter (MP) os dylai myfyrwyr bleidleisio i dderbyn yr adroddiad blynyddol a sut y disgwylir myfyrwyr ei ddal i gyfrif pan na ddarperir i'r Senedd.<br><br>Atebodd ST bod hyn er gwybodaeth yn unig ac yn cael ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.<br><br>Dywedodd Isaac Collins bod llawer o fyfyrwyr yn wynebu anawsterau ariannol a gwnaed £20 miliwn mewn elw y llynedd gan Breswylfeydd. Gofynnodd beth mae UMPC yn mynd i wneud am hyn a pham nad yw myfyrwyr yn derbyn yr isafswm cyflog eto.<br><br>Atebodd ST bod cynnig Preswylfeydd yn cael ei drafod yn hwyrach mewn cynnig a bod yn rhaid i'r Brifysgol gynyddu ffioedd preswylfeydd yn gyffredinol, ond nid ydym am i hynny fod yn broblem ac i rhent myfyrwyr gynyddu. Mae'r Undeb yn talu Cyflog Byw Cenedlaethol a osodir gan oedran, ond mae UMPC yn ei dalu hyd yn oed os yw myfyrwyr o dan 25.<br><br>Dywedodd siaradwr anhysbys bod polisi'r Siopswyddi o fod mewn modd cyntaf i'r felin, ddim yn helpu pawb a dylai bod yna ffordd gwell i gynnig y swyddi a thargedu'r rheini sydd angen cymorth ariannol.<br><br>Atebodd ST bod UMPC yn gwneud eu gorau i ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr. Os yw myfyrwyr yn profi caledi mae yna adnoddau ar gyfer cymorth ariannol, fel y gwasanaeth cynghori.<br><br>Dywedodd MP nad yw'r CCB yma i wneud i'r Tîm Swyddogion edrych yn dda, mae yma i basio polisi. Gofyn pam bod yn rhaid i fyfyrwyr wrando ar ddata.<br><br>Dywedodd ST bod yr Adroddiad Blynyddol yn tynnu sylw o'r gwaith gwych sy' mynd ymlaen drwy'r flwyddyn. |
| 5 | **Adroddiad Ariannol 15/16**<br><br>Eglurodd Prif Weithredwr Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd oherwydd datblygiadau yn adeilad UMPC, roedd y perfformiad ariannol yn wael. Ceir colled o £2.8 miliwn ond mae hyn oherwydd y cydgrynhoi lle roedd rhaid roi diffygion hanesyddol gyda'i gilydd. Esbonio bod tri gwahanol gwmni nawr gan bod hyn yn fwy effeithlon ar ran treth ac yn debyg i weithrediadau UCM.<br>UMPC - yn fras i gyllideb, gyda peth gorwario mewn chwaraeon a chymdeithasau ond mae hyn yn adlewyrchu cyfranogiad ychwanegol |

| | |
|---|---|
| | GUCC - colled masnachu o £20,000 oherwydd diddymiad sylweddol.<br>Gwirfoddoli Caerdydd - perfformio yn dda gyda chyllideb bach<br><br>Esboniodd y Prif Weithredwr bod yr Undeb wedi disgyn i rwymedigaethau a chyfanswm asedau negyddol am y tro cyntaf o ganlyniad i arbedion effeithlonrwydd, yn cynyddu rhent masnachol o'r llawr gwaelod a chynydd mewn costau staff myfyrwyr oherwydd gweithredu'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Mae'r elusen hefyd yn ddyledus o £2.7 miliwn mewn diffygion pensiwn, sy'n daladwy dros 17 mlynedd. Esboniodd bod Prifysgol Caerdydd wedi rhoi'r arian i UMPC i godi incwm ar gyfer y cynlluniau ailddatblygu. Y prosiect ariannol mwyaf yw'r Ganolfan Bywyd Myfyrwyr.<br><br>Dywedodd Seth bod yr elw mwyaf erioed wedi'i ddisgrifio yn y CBB llynedd a gofynnodd os yw UMPC yn gallu sicrhau na fydd myfyrwyr yn cael eu heffeithio gan y colledion hyn.<br><br>Atebodd y Prif Weithredwr bod £156,000 o elw wedi'i wneud llynedd, nid oedd yn record ac fe wnaeth colled ar ôl TAW. Esboniodd na fydd unrhyw arbedion effeithlonrwydd eleni yn effeithio ar darparu dyddiol i fyfyrwyr.<br><br>Gofynnodd David os bydd y £2.8 miliwn yn treiddio i lawr ac yn effeithio ar fyfyrwyr.<br><br>Atebodd y Prif Weithredwr nad yw'n golled go iawn gan ei fod yn dod o gwmnïau cydgyfnerthu ac fe fydd yn cael ei dalu fel morgais ford yr 17 mlynedd nesaf. Mae'r Prif Weithredwr yn hyderus na fydd hyn yn effeithio ar redeg dyddiol yr Undeb. |
| 6 | **Ymlyniadau**<br>*Ymlyniadau'n Pasio* |
| 7 | **Cwestiynau agored i'r Ymddiriedolwyr**<br><br>Eglurodd KB bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn 15 person; saith Swyddog Sabothol, dau o'r Brifysgol a enwebwyd, tri ymddiriedolwyr allanol a thri ymddiriedolwyr myfyrwyr. |
| 8 | **Cynigion a Gyflwynwyd**<br><br>**i) Llety Myfyrwyr – Cyfiawnder dros Elw**<br><br>Cynigydd: Matthew Procter<br>Eiliwyd gan: Izaac Collins<br>*Siaradwr o Blaid*<br><br>Esboniodd MP bod y cynnig yn ymdrin â 3 brif pwynt, yn elwa o'r blynyddoedd 1af, diffyg darpariaeth a llechfeddiannu darpariaeth y sector preifat. Ni ddylai llety fod ar gyfer elw, dylai fod ar gyfer ecwiti ac mae'r brifysgol yn gwneud elw o £20 miliwn dros y 5 mlynedd. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Brifysgol yn recriwtio mwy o fyfyrwyr drwy clirio ond heb rhwymedigaeth gytundebol i roi llety iddynt. Mae'r Brifysgol yn gwyro ar gwmnïau preifat ond nid oedd hyn yn ateb derbyniol gan bod cwmnïau yn codi mwy o arian. Nid oes yna bolisi Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ar lety.<br><br>*Siaradwr yn Erbyn*<br><br>Esboniodd Tim ei fod am fynd i Brifysgol sydd wedi'i ariannu'n dda, lle mae staff yn cael eu talu yn iawn a gyda chyfleusterau da. Yn nodi os nad yw'r Brifysgol yn gwneud elw ar lety blwyddyn gyntaf ac yn colli £20 miliwn dros y 5 mlynedd nesaf, codir y cwestiwn pa wasanaethau y byddai'r brifysgol yn ddileu neu leihau. Nid yw neuaddau i bawb, mae myfyrwyr yn gallu edrych ar Gumtree neu Spare Room ac yn gallu cwrdd â phobl neu wneud addasiadau. O gymharu â llawer o brifysgolion, mae costau llety Caerdydd yn isel. Nodi ymhellach bod myfyrwyr blwyddyn gyntaf yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain<br><br>*Cwestiynau*<br><br>Gofynnodd Dan beth oedd MP yn awgrymu fel cynnig.<br><br>Atebodd MP bod y swyddogion sabothol yn gallu lobio'r Brifysgol i weithredu'r polisi hwn.<br><br>Gofynnodd Andrew Rimer sut mae'r £20 miliwn yn cael ei wario a beth fyddai'n cael ei dorri.<br><br>Eglurodd MP nad yw'r Brifysgol yn rhyddhau cyfrifon manwl ond yn gwario £1 miliwn y flwyddyn ar hysbysebu a £9 miliwn y flwyddyn am ddyled cronedig.<br><br>Gofynnodd Siaradwr Anhysbys os oedd cynllun wrth gefn os oedd holl lety y Brifysgol yn llawn.<br><br>Eglurodd MP bod yna gontract gyda Liberty Living sy'n creu gostyngiad, ond nid yw'n debyg. Yr ateb yw llety o dan eiddo'r Brifysgol.<br><br>Dywedodd India Moore bod MP wedi dweud ei fod yn wael nad oedd myfyrwyr yn gallu ymweld â llety preifat a ddim yn gwybod y bobl ond mae'r un peth yn wir ar gyfer neuaddau'r Brifysgol.<br><br>MP yn cydnabod hyn ond dywedodd mewn neuaddau y landlord yw'r Brifysgol ac rydych mewn amgylchedd addas.<br><br>Gwnaeth James Smith sylw ar benderfyniad 1 CCB a gofyn os fydd y polisi hwn yn cynnwys ôl-raddedigion blwyddyn gyntaf. |

| | |
|---|---|
| | Eglurodd MP y bwriedir ar gyfer israddedigion blwyddyn gyntaf, gall unrhyw gynnig ar opsiynau ôl-raddedig fynd drwy'r Senedd.<br><br>Gofynnodd Usman Bukhari (UB) os byddai'n rhaid i'r Brifysgol brynu holl dai myfyrwyr gan bod yna brifysgolion eraill yng Nghaerdydd.<br><br>Ymatebodd MP bod y Brifysgol wedi adeiladu Giât Talybont 2 flynedd yn ôl, ond nid yw eisiau gwario arian.<br><br>*Ail Siaradwr o Blaid*<br><br>Esboniodd Seb bod y farchnad wedi codi cost llety rhent myfyrwyr ail a trydydd blwyddyn ac mae'n rhaid i Brifysgol Caerdydd sefyll yn erbyn hyn gan bo myfyrwyr yn ei chael hi'n anodd i fwyta ac ymdopi. Nodi ymhellach bod gan y Brifysgol weddill, a gofyn ble dylid blaenoriaethu, cyfrif banc y brifysgol neu'r myfyrwyr?<br><br>*Ail Siaradwr yn Erbyn*<br><br>Esboniodd UB y bydd llety'r Brifysgol yn costio £X, os maent eisiau mynd rhywle arall bydd y Brifysgol yn sylwi bod y pris yn rhy uchel a'r gwasanaethau ddim yn dderbyniol a gallant ymateb eu hunain. Mae problemau tai, ond ni ellir datrys rhain gyda phopeth o dan un to.<br><br>*Trydydd Siaradwr o Blaid*<br><br>Eglurodd Seb bod hyn yn bwysig gan nad yw dyblu mewn prisiau llety a ffioedd gweinyddol gan ddarparwyr gweinyddol yn dda.<br><br>*Cynnig Trefniadol a Godwyd gan MP i fynd i bleidlais*<br><br>*Siaradwr o blaid y Cynnig Trefniadol*<br><br>Dywedodd MP bod amser yn brin i'r CCB barhau a bod cynigion eraill heno.<br><br>*Siaradwr yn erbyn y Cynnig Trefniadol*<br><br>Dywedodd UB bod pobl dal eisiau siarad.<br><br>*Cynnig Trefniadol yn Pasio*<br><br>*Symiant*<br><br>Dywedodd MP bod y polisi yn dda a pheidio â gwrando i'r farchnad rhydd. |

| | |
|---|---|
| | *Cynnig yn methu*<br><br>**ii) Swyddog Ymgyrch Iechyd Meddwl**<br><br>Cynigydd: Chiron Hooson<br>Eiliwyd gan: Scott Place<br><br>*Siaradwr o Blaid*<br><br>Eglurodd CH bod nifer enfawr o faterion Iechyd Meddwl (1 o bob 4 person) a bod y strwythur gefnogol yn gwneud gwaith gwych, ond gall y Brifysgol symud ymlaen a thaclo materion iechyd meddwl yn well. Bydd y rôl hwn yn gwella profiad myfyrwyr a dangos cynllun i symud ymlaen yn y dyfodol. Mae'r cynnig hwn yn creu llwyfan newydd i ganolbwyntio ymdrechion i frwydro yn erbyn iechyd meddwl, mae'n bwnc newydd ond dyna natur syniadau newydd.<br><br>*Siaradwr yn Erbyn*<br><br>Esboniodd Charlie Knights fel Swyddog Anabledd presennol, bydd y rôl hyn yn cael ei rannu. Eglurodd ei fod wedi bod yn cefnogi a gweithio gyda'r IL Lles, yn cynnal ymgyrch i 'Atal y Stigma'. Daw'r rhan fwyaf o gronfeydd ymgyrch o'r IL Lles, nid y gyllideb ymgyrch ac fe fyddai'r cynnig hwn yn rhannu'r gyllideb ymhellach. Ddim eisiau gweld rôl lle mae un ohonynt yn dod yn anetholedig.<br><br>*Cwestiynau*<br><br>Gofynnodd Joey Harrison (JH) am eglurhad ar benderfyniadau 2 a 3, a phwy fyddai'r arweinyddion a beth fyddai'r rhwydwaith cymorth yn cynnwys.<br><br>Atebodd CH mai penderfyniad y tîm swyddogion etholedig a Llais Myfyrwyr fyddai hyn. Os fyddai hyn ar waith ar gyfer etholiadau Chwefror, fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod y ddau rôl yn rhedeg a'r hyfforddiant cyn Medi.<br><br>Gofynnodd JH hefyd ynghylch pwynt 3.<br><br>Atebodd CH bod angen ymgynghori â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr os yw'r cynnig hwn yn pasio.<br><br>Dywedodd Isaac nad yw nodiadau 6 yn cynnwys pobl traws a gofyn os gellid eu cynnwys ac os fyddai'n well rhoi mwy o arian i Gefnogaeth Myfyrwyr. |

| | |
|---|---|
| | Cytunodd CH ac ateb bod angen cydnabod hyn. Mae gan y Swyddog Anableddau gylch gwaith eang felly mae'n bwysig cael Swyddog Ymgyrch Iechyd Meddwl.<br><br>Gofynnodd Scott os fyddai un rôl heb ei lenwi, os fyddai'r llall yn gallu ymgymryd â'r ddwy rôl.<br><br>Dywedodd CH bod hyn wedi'i ateb.<br><br>Gofynnodd Rafael sut y byddwn yn sicrhau y bydd y swyddog newydd hwn yn hysbys.<br><br>Atebodd CH bod angen i Swyddogion Ymgyrch fod yn fwy hysbys ac mae Sophie yn gweithio ar gynllun gweithredu. Mae myfyrwyr yn ymwneud llawer ag iechyd meddwl a fydd hyn ond yn cynyddu, mae hefyd yn cwmpasu llawer o grwpiau lleiafrifol a gynrychiolir gan Swyddogion Ymgyrch eraill.<br><br>Gofynnodd India Moore sut y gellir datrys y broblem o rannu'r rôl a'r mater o ran cyllideb.<br><br>Dywedodd CH bod Swyddogion Ymgyrch yn derbyn £100. Nid yw hyn yn rhannu'r rôl, bydd y Swyddog Anableddau yn aros yr un peth a dal â chylch gwaith tuag at iechyd meddwl. Gallai'r 2 swyddog weithio gyda'i gilydd ar y gyllideb, nid yw'n 50:50 yn union.<br><br>Gofynnodd Isaac os yw CH yn meddwl fydd hyn yn helpu mynd i'r afael â mwy o faterion.<br><br>Atebodd CH fod iechyd meddwl ymhlith myfyrwyr yn broblem enfawr, ac mae hyn yn dangos bod wir angen hyn.<br><br>*Ail Siaradwr o Blaid*<br><br>Esboniodd Emmaline Rice bod anabledd yn cael effaith ar iechyd meddwl ond nid yw iechyd meddwl yn anabledd yn unig. Mae Charlie wedi gwneud rôl gwych ond mae'n sarhaus ei fod yn meddwl na fyddai neb yn rhedeg ar gyfer anableddau corfforol. Gallai'r cynnig hwn osod cynsail ar gyfer Undebau Myfyrwyr eraill.<br><br>*Ail Siaradwr yn Erbyn*<br><br>Dywedodd Luca bod y cynnig hwn yn wych ond bod angen ei fireinio. Dylai pawb gael llais, a llynedd nid oedd nifer yn gwybod pwy i fynd atynt. Ar hyn o bryd dylwn ohirio'r cynnig hwn a'i ddiwygio, gan ei fod yn gynnig mawr.<br><br>*Symiant*<br><br>Dywedodd CH bod 54% o fyfyrwyr â phroblemau iechyd meddwl heb ofyn am gymorth ac |

| | |
|---|---|
| | roedd 40% yn teimlo'n nerfus. Er mwyn chwalu'r rhwystrau hyn, mae angen dechrau gydag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a'r CBB. Nodwyd y gall y CBB greu amgylchedd ysgogol a chefnogol a fydd hyn yn ein tywys gam yn nes.<br><br>*Cynnig yn Pasio*<br><br>**iii) Herio nid Sensro**<br><br>Cynigydd: James Daly<br>Eiliwyd gan: Matthew Jenkins<br><br>*Siaradwr o Blaid*<br><br>Esboniodd JD ei fod eisiau diogelu rhyddid i siarad ac fel sefydliad academaidd, dyma'r lle i herio syniadau. Mae hyn yn ffordd i amddiffyn lleiafrifoedd, i atal safbwyntiau rhag fod yn dramgwyddus neu sarhaus. Ni ddylai myfyrwyr gael eu sensro a'r Undeb yn condemnio barn yr UCM ar y llwyfannau hyn.<br><br>*Siaradwr yn Erbyn*<br><br>Esboniodd Rafael bod nifer o achosion lle dylid diogelu hawliau'r unigolyn. Er enghraifft, wrth ystyried y cynnydd o wleidyddion poblyddol, mae Britain First eisiau llwyfan i siarad. Ni ddylem ysgogi trais ac mae llwyfan yn cyfreithloni ei barn. Pan bo ffasgwyr gwirioneddol yn cael yr hawl i siarad mae'n dilysu eu pwynt ac rydym yn dweud na yn erbyn safbwyntiau ffasgaidd.<br>*Cwestiynau*<br><br>Gofynnodd Anna Russell ar ba bwynt mae barn yn niweidiol a phryd rydych yn stopio.<br><br>Atebodd JD ei fod yn dod yn niweidiol pan nad yw'n cael ei herio. Dywedwn na o fewn y gyfraith, lleferydd casineb ac annog trais.<br><br>Gofynnodd Andrew Rimmer os bydd atal cymell trais ac os dylid rhoi dilysrwydd i syniadau, drwy gael dadl.<br><br>Atebodd JD mai'r gyfraith yw'r llinell a dadl yw'r lle y dylid gwneud y penderfyniad terfynol ar safbwyntiau.<br><br>Gwnaeth Jack sylw ar credau 7 a gofyn sut fydd yn cael ei herio.<br><br>Atebodd JD na fydd siaradwyr allanol yn cael eu cynnwys yn hyn ond mae angen gwrth siaradwr ar unrhyw siaradwr. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd Ben bod y Swyddog Merched wedi ceisio atal llwyfan i Germaine Greer a gofyn ar ba bwynt mae rhyddid i siarad yn dod yn fwy pwysig nac atal barn cas.<br><br>Atebodd JD bod y Brifysgol wedi dewis anwybyddu'r polisi ac fe siaradodd hi beth bynnag. Nid yw'n torri'r gyfraith mewn cymell trais neg araith casineb.<br><br>Dywedodd MP bod y cynnig hwn yn anwybyddu'r cysyniad o gost a gofynnodd os fyddai'r cynnig hwn yn annog gwariant arian yr Undeb.<br><br>Atebodd JD nad yw hyn yn berthnasol i siaradwyr allanol.<br><br>Gofynnodd Niko Ciecierski-Holmes am eglurhad bod y polisi hwn ond yn cyfeirio ar fyfyrwyr ar y campws ac nid siaradwyr allanol.<br><br>Cadarnhaodd JD hyn.<br><br>*Ail Siaradwr o Blaid*<br><br>Esboniodd Ben bod cyfyngu rhyddid i siarad Os yw un yn anghytuno gyda beth mae'r llall yn ddweud, mae dal yr hawl i ddweud hynny. Nodi ymhellach fod tawelu eraill yn gallu cael ei ystyried fel ffasgiaeth a chyfrifoldeb pawb yw creu dadl gwell na'r rheini sy'n cael eu anghytuno â.<br><br>*Ail Siaradwr yn Erbyn*<br><br>Esboniodd Beth bod yr arwydd yn dweud 'cymryd rhan' a gofyn sut gallwn ni annog fyfyrwyr i beidio â chymryd rhan. Nid oes yn rhaid i'r Brifysgol roi llwyfan i'r rheini sy'n hyrwyddo casineb gan bod cymaint o bobl ac aelodau gallai deimlo'n ofnus.<br><br>*Symiant*<br><br>Esboniodd JD fod hyn yn berthnasol i siaradwyr myfyriwr ac nid yn dadlau y dylem wrando ar bobl gyda sylwadau anwybodus a'u derbyn, dylid herio unrhyw sylw.<br><br>*Cynnig yn Pasio*<br><br>**iv) Bod yn Undeb Dim Goddefgarwch**<br><br>Cynigydd: Emily Broad<br>Eiliwyd gan: Oliver Canning<br><br>*Siaradwr o Blaid* |

| | |
|---|---|
| | Esboniodd Emily Broad bod hyn yn ymestyniad i'r polisi Dim Goddefgarwch Aflonyddu yn yr Undeb. Nodi bod polisi 2015 yn dda ond ar hyn o bryd ond yn cyfeirio ar natur rywiol, nid harasio ar y cyfan ac ond yn gymwys o fewn waliau'r Undeb. Am gadw amlinelliad y polisi, ond ei ymestyn i holl aflonyddu ac ymestyn y polisi y tu hwnt i adeilad yr Undeb. Mae'n bwysig bod polisi disgyblu mewn lle ond mae angen polisi ar wahân.<br><br>*Dim siaradwr yn erbyn*<br>*Cwestiynau*<br><br>Siaradwr Anhysbys yn gofyn pa mor bell mae hyn yn ymestyn ac os fyddai uwchlaw'r gyfraith.<br><br>Atebodd EB na fydd uwch y gyfraith, gan fo hynny yn anghyfreithlon.<br><br>*Cynnig yn Pasio*<br><br>**v) Misglwyf mewn Tlodi**<br><br>Cynigydd: Fiona Munnelly<br>Eiliwyd gan: Jessica Martyn<br><br>*Siaradwr o Blaid*<br><br>Esboniodd Fiona Munnelly fod hyn yn brosiect dan arweiniad myfyrwyr i ddarparu prosiectau misglwyf i bawb. Mae prifysgolion gwahanol yn rhoi cynhyrchion, denodd Prosiect Digartref yn Llundain 111,000 o lofnodion ac fe gafodd ymgyrch rhoddi yn Durham 16,000 rhodd unigol mewn 3 diwrnod. Dywedodd holiadur ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Caerdydd y byddai 100% yn rhoi os byddai biniau ar gael ac wedi bod mewn cysylltiad gydag elusennau lleol ac maent wedi dangos cefnogaeth. Bydd y Swyddog Moesegol ac Amgylcheddol a Swyddog Merched yn cyfathrebu a lobïo arian ar gyfer hyn, a goresgyn unrhyw rwystrau i sicrhau bod y prosiect yn un llwyddiannus. Gofyn am un man rhoi ym mhob Ysgol ac yn yr Undeb erbyn Mawrth 2017.<br><br>*Dim siaradwr yn erbyn*<br><br>*Cwestiynau*<br><br>*Cynnig yn Pasio* |
| 9 | **Hysbysiad o Etholiadau**<br>Esboniodd KB bod enwebiadau ar gyfer etholiadau'r Chwefror yn agor heddiw a bod 7 rôl Swyddog Sabothol a 10 rôl Swyddog Ymgyrch ar gael. |
| 10 | **Unrhyw Fusnes Arall** |

| | |
|---|---|
| | Cyfarwyddodd KB i fyfyrwyr adael eu clustffonau yn y biniau glas ar eu ffordd allan a diolch i bawb am fynychu. |

# EITEM TRI

Mae'r cynigion canlynol a basiwyd yn y CCB wedi dod i ben ers y CCB diwethaf. Cyflwynir y rhain er gwybodaeth yn unig.

| | |
|---|---|
| Gefeillio Prifysgol Palesteina | Pasiwyd 27ain Tachwedd 2014 |
| Cydnabod Gwladwriaeth Palesteina | Pasiwyd 27ain Tachwedd 2014 |
| Gwella Cynrychiolaeth Ôl-raddedig | Pasiwyd 27ain Tachwedd 2014 |
| Ailstrwythuro Cyfryngau Myfyrwyr | Pasiwyd 27ain Tachwedd 2014 |

**Edrychwch ar yr adran hon o'r wefan am y polisïau i gyd** - https://www.cardiffstudents.com/your-voice/policy/

# EITEM PEDWAR

Bydd Llywydd Undeb Myfyrwyr, Hollie Cooke, yn cyflwyno negeseuon allweddol yr adroddiad, datblygiadau arwyddocaol, llwyddiannau a newidiadau o fewn y sefydliad ar gyfer y flwyddyn academaidd 2016-17.

EITEM PUMP

Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

Cyfyngedig drwy warant

# Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr
# ac Adroddiadau Ariannol Cyfnerthedig

ar gyfer y blwyddyn a ddaeth i ben 31ain Gorffennaf 2017

Fersiwn cryno ar gyfer CCB Aelodau Myfyrwyr – am y fersiwn lawn ewch i :
https://www.cardiffstudents.com/about-cusu/governance/financial-statements/

AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Amcanion yr Undeb yw hyrwyddo addysg y myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd er budd y cyhoedd drwy:

- Hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ystod eu hastudiaeth a chynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr.
- Bod yn sianel gynrychiolaeth gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrff allanol eraill; a
- Darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden yn ogystal â fforymau ar gyfer trafodaeth er mwyn datblygiad personol ein myfyrwyr.

Wrth lunio amcanion Gwirfoddoli Caerdydd ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ei weithgareddau, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau cyffredinol a pherthnasol atodol y Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd. Wrth fynd ar drywydd y nodau hyn er lles y cyhoedd, mae'r Undeb wedi sefydlu adrannau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ei aelodau ac yn gweithio gyda'r Brifysgol a sefydliadau eraill ar ran myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Yn ystod 2016-17, cynyddodd cyfranogiad yng ngweithgareddau Undeb i'r lefel uchaf erioed o 22,101 (2015/16: 20,848) o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn 19 o ardaloedd cyfranogiad. Mae'r Undeb wedi cyflawni record ym mhedwar o'r pum mlynedd diwethaf. Arhosodd boddhad myfyrwyr rhwng 89% ac 87% ar draws canlyniadau arolwg mewnol ac allanol yr Undeb a chafodd yr Undeb ei enw fel un o'r pedwar uchaf o undebau myfyrwyr y DU yn canllaw prifysgolion Which? Gellir lawrlwytho'r dadansoddiad cynhwysfawr a rhifiadol o weithgareddau yr Undeb o: www.cardiffstudents.com/about-cusu/governance/annual-impact-reports).

Mae'r Undeb yn gosod ei blaenoriaethau hirdymor yn ôl ei gynllun strategol, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd gyda myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y cynllun strategol wrth osod amcanion blynyddol, a fynegir mewn cerdyn sgorio cytbwys a ddilynir gan Ymddiriedolwyr a staff yr Undeb. Yn 2017/18 mae'r Ymddiriedolwyr yn bwriadu datblygu a lansio cynllun strategol newydd i redeg tan o leiaf 2021. Gellir gweld copi o gynllun strategol cyfredol yr Undeb yn: www.cardiffstudents.com/about-cusu/plans.

Mae'r Undeb yn darparu fframwaith hirsefydlog o arian grant ar gyfer clybiau a chymdeithasau cysylltiedig yr Undeb, yn unol â'r darpariaethau a nodwyd o fewn Deddf Addysg 1994. Yn 2016/17 fe wnaeth yr Undeb ddyrannu grantiau i'r grwpiau hyn gyda chyfanswm o £66,291 (Gorffennaf 21 2016: £101,603).

Mae'r Undeb yn defnyddio gwirfoddolwyr, sydd hefyd yn fuddiolwyr gan amlaf, i gyflawni ei amcanion. Mae gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau megis croesawu myfyrwyr newydd i'r brifysgol, goruchwylio gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden ac yn cynrychioli myfyrwyr i'r Brifysgol a chyrff allanol. Nid yw'r Undeb wedi cynnal ymarfer i adnabod nifer o oriau mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu na chyfwerthedd ei staff.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Amlygir gweithgareddau, cyflawniadau a pherfformiad yr Undeb drwy ei broses yn erbyn ei 20 amcan uchaf yn y cerdyn sgorio cytbwys. Yn 2016-17, cyflawnwyd 10 o'r 20 targedau, gyda dau wedi'u cyflawni yn rhannol a 8 heb eu cyflawni / wedi gohirio nes 2017/18. Gellir lawrlwytho datganiadau o berfformiad yn erbyn y targedau hyn ac asesiad o amser staff ac adnoddau ariannol a ddefnyddiwyd i gyflawni'r amcanion hyn ar: www.cardiffstudents.com/about-cusu/governance/annual-impact-reports). Mae'r Ymddiriedolwyr yn cymryd sylw o'r ffactorau cadarnhaol a negyddol yn fewnol ac yn allanol i'r Undeb wrth osod ei gynlluniau ac yn neilltuo dau ddiwrnod bob blwyddyn at y gweithgarwch hwn.

Ni osodwyd unrhyw godi arian deunydd, buddsoddiad na gwariant i godi targedau incwm y dyfodol yn ystod y flwyddyn.

## ADRODDIAD ARIANNOL

Nodir Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar y datganiadau ariannol. Cyfanswm incwm yr elusen oedd £3,050,084 gyda chyfanswm gwariant o £2,944,444. Arweiniodd hyn at gwarged diwedd blwyddyn net o £105,640 yn yr Elusen.

Ar 31 Gorffennaf 2017 cyfanswm y cronfeydd wrth gefn rhydd yr Undeb (h.y. cronfeydd anghyfyngedig heb ei gynrychioli gan asedau sefydlog) oedd £75,195 (31 Gorffennaf 2016: £-23,645) ac mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon bod gan yr Undeb sylfaen ariannol gadarn i fynd ar drywydd ei amcanion a'i weithgareddau .

Parhaodd is-gwmni'r Undeb, GUCC, i gynyddu ei incwm yn 2017 gyda throsiant o £3,975,803 (31 Gorffennaf 2016: £3,663,405). Fe wnaeth y cwmni masnachu wneud diffyg ariannol gweithredol o £123,574 (31 Gorffennaf 2016: £-844,600) ar ôl codi tâl dibrisiant o £685,467 (31 Gorffennaf: £693,277), gyda £601,960 yn codi o ddibrisiant adeilad yr Undeb. Yn ystod y flwyddyn ailwerthuswyd rhwymedigaeth pensiwn y cwmni ac ar ddiwedd y flwyddyn wedi cynyddu i £4,427,963 (31 Gorffennaf 2016: £2,663,371). Mae'r diffyg ariannol yn codi o rwymedigaethau dyfodol y cwmni tuag at Gynllun Pensiwn Undeb y Myfyrwyr, a gafodd ei gau ar gyfer croniad dyfodol yn 2011. Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod arian i fodloni rhwymedigaethau i'r gronfa gan eu bod yn ddyledus dros fywyd y cynllun adfer diffyg ariannol hyd at 2033.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth yr is-gwmni ddiddymu'r TAW anadenilladwy gwerth £103,411 oherwydd anghytundeb prisio rhwng yr Undeb a Thollau EM. Ni ddisgwylir addasiadau untro negyddol yn y dyfodol. Mae'r cyfarwyddwyr yn disgwyl y bydd y cwmni yn cynhyrchu elw ac arian parod gwarged yn 2017/18, cyn yr ystyrir y taliadau sy'n ymwneud ag adeilad yr Undeb.

### *Polisi Cronfeydd wrth Gefn*

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu sefyllfa cronfeydd yr Undeb ac yn gosod targedau ar gyfer lefelau cronfeydd wrth gefn yn unol â'r anghenion dyfodol os na fydd arian ar gael o'r ffynhonnell ariannu egwyddor. Mae polisi wrth gefn yr Undeb yn datgan y bydd yr Undeb yn cyllidebu i gyflawni gwarged o £280,000 o'u gweithgareddau cyfunol bob blwyddyn i ddatblygu cronfeydd anghyfyngedig o £1.3M erbyn 2023.

Cyfanswm cronfeydd wrth gefn yr Undeb yw £75,195 (31 Gorffennaf 2016: £23,645) ac £47,758 (31 Gorffennaf 2016: £-486,170) pan yn gyfunol. Nid yw'r Undeb yn dal unrhyw gronfeydd wrth gefn cyfyngedig o fewn yr Elusen neu'n gyfunol.

### *Prif Ffynonellau Cyllid*

Y prif gyllidwr yw Prifysgol Caerdydd, drwy ei gymorth ar gyfer yr Undeb a CUSL.

CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

Cynllun strategol yr Undeb – Gweithio gyda pob myfyriwr Caerdydd i wella eu Prifysgol profiad 2014-17 – yn ystod 2013/14 ar ôl ymgynghori â myfyrwyr, staff yr Undeb a Phrifysgol Caerdydd. Mae'r cynllun yn cynnwys deuddeg amcan: Deall ein myfyrwyr; Datblygu ein myfyrwyr; Cael effaith gadarnhaol ar y Brifysgol a'r gymuned ehangach; Adeiladu profiad myfyrwyr Parc y Mynydd Bychan; Cynnal sefydliad cynaliadwy; Creu cyfleusterau sy'n arwain y sector; a bod yn ardderchog yn yr hyn a wnawn. Gellir lawrlwytho'r cynllun o www.cardiffstudents.com/our-plan. Mae'r Undeb yn bwriadu lansio strategaeth newydd yn ystod 2017/18 i redeg tan 2021 leiaf.

## CONSOLIDATED AND PARENT CHARITY STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES (INCLUDING INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT)

| | | Consolidated | | Parent charity | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | (restated) | | |
| | | 2017 | 2016 | 2017 | 2016 |
| | | Unrestricted | Unrestricted | Unrestricted | Unrestricted |
| | | Total | Total | Total | Total |
| | | Funds | Funds | Funds | Funds |
| | Note | £ | £ | £ | £ |
| **INCOME AND ENDOWMENTS FROM:** | | | | | |
| Donations and legacies - Block grant | 1 | 2,806,000 | 2,666,000 | 1,206,000 | 1,206,000 |
| Donations and legacies - Gift of net assets | 2 | - | 11,527,476 | - | - |
| Other trading income | 3 | 3,975,803 | 3,663,405 | - | - |
| Charitable activities | 6 | 1,856,250 | 1,600,598 | 1,844,084 | 1,591,850 |
| Investments | 7 | 418 | 878 | - | - |
| **Total** | | 8,638,471 | 19,458,357 | 3,050,084 | 2,797,850 |
| **EXPENDITURE ON:** | | | | | |
| Raising funds | 8 | 7,657,085 | 6,168,701 | - | - |
| Charitable activities | 9 | 2,946,176 | 2,806,570 | 2,944,444 | 2,798,698 |
| **Total** | | 10,603,261 | 8,975,271 | 2,944,444 | 2,798,698 |
| **Net income/(expenditure) and Net movement in funds** | | (1,964,790) | 10,483,086 | 105,640 | (848) |
| **RECONCILIATION OF FUNDS** | | | | | |
| **Total funds brought forward** | 20,21 | 10,484,280 | 1,194 | 346 | 1,194 |
| **Total funds carried forward** | 20,21 | 8,519,490 | 10,484,280 | 105,986 | 346 |

# CARDIFF UNIVERSITY STUDENTS' UNION

CONSOLIDATED FINANCIAL STATEMENTS FOR THE YEAR ENDED 31 JULY 2017

## CONSOLIDATED AND PARENT CHARITY BALANCE SHEET AS AT 31 JULY 2017

| | | Consolidated | | Parent charity | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | (restated) | | |
| | | 2017 | 2016 | 2017 | 2016 |
| | | Unrestricted | Unrestricted | Unrestricted | Unrestricted |
| | | Total | Total | Total | Total |
| | | Funds | Funds | Funds | Funds |
| | Note | £ | £ | £ | £ |
| **FIXED ASSETS** | | | | | |
| Tangible fixed assets | 13,14 | 12,995,211 | 13,633,821 | 30,791 | 23,991 |
| Investment assets | 15 | 73,563 | 73,563 | 2,000 | 2,000 |
| **Total fixed assets** | | 13,068,774 | 13,707,384 | 32,791 | 25,991 |
| **CURRENT ASSETS** | | | | | |
| Stocks | 16 | 41,387 | 75,114 | - | - |
| Debtors | 17 | 431,918 | 549,741 | 351,474 | 275,091 |
| Cash at bank and in hand | | 469,186 | 267,742 | 160,802 | 12,531 |
| **Total current assets** | | 942,491 | 892,597 | 512,276 | 287,622 |
| **CURRENT LIABILITIES** | | | | | |
| Creditors: amounts falling due within one year | 18 | (1,063,812) | (1,452,330) | (439,081) | (313,267) |
| **Net current assets** | | (121,321) | (559,733) | 73,195 | (25,645) |
| **Total assets less current liabilities** | | 12,947,453 | 13,147,651 | 105,986 | 346 |
| Net pension liability | 19 | (4,427,963) | (2,663,371) | - | - |
| **Net assets** | | 8,519,490 | 10,484,280 | 105,986 | 346 |
| **THE FUNDS OF THE CHARITY** | | | | | |
| Unrestricted general funds | 20,21 | 8,519,490 | 10,484,280 | 105,986 | 346 |
| **Total charity funds** | | 8,519,490 | 10,484,280 | 105,986 | 346 |

# CARDIFF UNIVERSITY STUDENTS' UNION

CONSOLIDATED FINANCIAL STATEMENTS FOR THE YEAR ENDED 31 JULY 2017

## CONSOLIDATED AND PARENT CHARITY STATEMENT OF CASH FLOWS

| | | Consolidated | | Parent charity | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | (restated) | | |
| | | 2017 | 2016 | 2017 | 2016 |
| | | Unrestricted Total Funds | Unrestricted Total Funds | Unrestricted Total Funds | Unrestricted Total Funds |
| | Note | £ | £ | £ | £ |
| **Net cash flow from operating activities (see below)** | | 253,815 | 14,559,432 | 161,003 | (69,571) |
| **Cash flow from investing activities** | | | | | |
| Dividends, interest and rents from investments | 5 | 418 | 878 | - | - |
| Purchase of fixed assets | 15,16 | (52,789) | (14,328,602) | (12,732) | (25,494) |
| Purchase of investments | | - | (71,563) | - | - |
| **Net cash flow from investing activities** | | (52,371) | (14,399,287) | (12,732) | (25,494) |
| **Net increase/(decrease) in cash and cash equivalents** | | 201,444 | 160,145 | 148,271 | (95,065) |
| **Cash and cash equivalents at 1 August 2016** | | 267,742 | 107,597 | 12,531 | 107,596 |
| **Cash and cash equivalents at 31 July 2017** | | 469,186 | 267,742 | 160,802 | 12,531 |
| **Cash and cash equivalents consist of:** | | | | | |
| Cash at bank and in hand | | 469,186 | 267,742 | 160,802 | 12,531 |
| **Cash and cash equivalents at 31 July 2017** | | 469,186 | 267,742 | 160,802 | 12,531 |

**Reconciliation of net income to net cash flow from operating activities**

| | | Consolidated | | Parent charity | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | (restated) | | |
| | | 2017 | 2016 | 2017 | 2016 |
| | | Unrestricted Total Funds | Unrestricted Total Funds | Unrestricted Total Funds | Unrestricted Total Funds |
| | Note | £ | £ | £ | £ |
| Net income for the year | | (1,964,790) | 10,483,086 | 105,640 | (848) |
| Adjusted for: | | | | | |
| Depreciation and impairment of tangible fixed assets | 15,16 | 691,399 | 694,780 | 5,932 | 1,503 |
| Dividends, interest and rents from investments | 5 | (418) | (878) | - | - |
| Decrease/(increase) in stocks | 18 | 33,727 | (75,114) | - | - |
| Decrease/(increase) in debtors | 19 | 117,823 | (277,721) | (76,383) | (3,071) |
| Increase/(decrease) in creditors due in less than one yea | 20 | (388,518) | 1,071,908 | 125,814 | (67,155) |
| Increase/(decrease) in net pension liability | 21 | 1,764,592 | 2,663,371 | - | - |
| | | 2,218,605 | 4,076,346 | 55,363 | (68,723) |
| | | 253,815 | 14,559,432 | 161,003 | (69,571) |

# EITEM CHWECH

## Ymlyniadau

| | |
|---|---|
| **Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol** | £ 35,093.40 |
| **Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain** | £ 17,082.55 |

Mae llawer o'n clybiau chwaraeon a'n cymdeithasau cofrestredig yn gysylltiedig ag amrywiaeth o gyrff llywodraethu chwaraeon a diwylliannol cenedlaethol.

# EITEM WYTH

## CYNNIG UN

### Myfyrwyr Mwslimaidd i gael eu cynrychioli'n well gan Undeb y Myfyrwyr

**Mae'r CCB yn Nodi:**

1. Mae gan Brifysgol Caerdydd nifer sylweddol o fyfyrwyr Mwslimaidd nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n dda yn yr Undeb.
2. Mae llawer o ysgolion ym Mhrifysgol Caerdydd nad ydynt yn ystyried gweddi ddydd Gwener Mwslimaidd.
3. Mae angen adnewyddu'r cyfleusterau gweddïo cyfredol
4. Nid oes unrhyw gyfleusterau puredigaeth ar gyfer myfyrwyr Mwslimaidd yn yr Undeb
5. Nid oes darpariaeth o ddŵr ar gyfer glanweithdra yn unrhyw doiledau'r Undeb

**Cred y CCB:**

1. Nid yw llawer o ddisgyblaethau ym Mhrifysgol Caerdydd fel Optometreg yn darparu egwyl 13:00 – 14:00, ac o ganlyniad mae nifer o fyfyrwyr Mwslimaidd yn gorfod colli eu gweddïau ddydd Gwener. Gweddïau dydd Gwener yw'r rhwymedigaeth pwysicaf ar gyfer myfyriwr Mwslimaidd ac mae'n annheg gorfodi myfyrwyr i'w golli.
2. Mae adborth gan fyfyrwyr yn dangos bod angen adnewyddu'r ystafell aml-ffydd
3. Mae adborth yn dangos y byddai myfyrwyr yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cael cyfleusterau puredigaeth yn hytrach na defnyddio toiledau
4. Dengys adborth gan tua 50 o fyfyrwyr bod angen cyfleusterau dŵr ar gyfer anghenion glanweithdra myfyrwyr

**Penderfyna'r CCB:s**

1. Lobïo'r Brifysgol i Bob Ysgol gael egwyl unffurf rhwng 13:00 a 14:00
2. Bod angen adnewyddu'r ystafell gweddi aml-ffydd
3. Bod angen darparu cyfleusterau puredigaeth yn yr Undeb
4. Darparu cyfleusterau dŵr ym mhob toiled yr Undeb

**Cynigydd: Ameen –**

**Eiliwyd gan: Hamza Saleem, Umair Asim, Ishmam Omar**

# CYNNIG DAU

## Gwneud Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn gyflogwr cyflog byw

**Mae'r CCB yn Nodi:**

1. 1. Bod Prifysgol Caerdydd yn arwain y ffordd yng Nghymru fel yr unig brifysgol sy'n cael ei achredu i fod yn talu'r Cyflog Byw Go Iawn. (1)
2. Nad yw Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn gyflogwr cyflog byw
3. Bod Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd wedi cyflawni targedau trawiadol megis cymryd o leiaf £40,000 ar gyfer noson clwb myfyriwr ac yn mynd o nerth i nerth yn darparu ar gyfer myfyrwyr Caerdydd
4. Bod Prifysgol Caerdydd ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cael eu gweld fel yr un sefydliad gan fyfyrwyr a'r cyhoedd ehangach
5. Bod y cynnig hwn yn cael ei gefnogi gan Aelod Seneddol dros Ganol Caerdydd, Jo Stevens, Aelod y Cynulliad dros Gaerdydd Canolog, Jenny Rathbone, Arweinydd Cyngor Caerdydd, Huw Thomas, a Chynghorwyr Dinas Caerdydd dros Cathays, Sarah Merry, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, a Chris Weaver, Aelod y Cabinet dros Gyllid.

**Cred y CCB:**

1. Ei fod yn synnwyr cyffredin i Brifysgol Caerdydd ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd gael polisi isafswm cyflog cyffredin gan eu bod yn cael eu gweld yn gyffredin fel yr un sefydliad.
2. Mae hefyd yn gwneud synnwyr i'r Undeb gymryd costau byw ar gyfer myfyrwyr o ddifrif a chaniatáu i'r tâl adlewyrchu ein hanghenion, ein blaenoriaethau, a beth yw'r wobr am waith caled yn ein barn ni.
3. Byddai cynnig cyflog byw yn trawsnewid yr Undeb yn lle gwaith hyblyg a fyddai o fudd y cyflogwr a'r gweithwyr gan ein galluogi i drio gwahanol fathau o waith heb orfod cael toriad mewn cyflog.
4. Byddai cynnig cyflog byw yn lleihau tlodi myfyrwyr a'r anghyfiawnder o fyfyrwyr yn methu â phrynu bwydydd sylfaenol neu'n cael anhawster yn talu rhent ar ben ein ffioedd. Bydd hyn yn rhoi rhyddid i fyfyrwyr allu neilltuo mwy o amser i'w hastudiaethau a bywyd personol heb orfod poeni am fynd i'r gorddrafft.

**Cred y CCB ymhellach:**

1. Bod achredu cyflog byw o fudd i fusnesau. Canfuwyd Sefydliad Cyflog Byw bod 93% o gyflogwyr Cyflog Byw yn dweud eu bod wedi elwa o gyflwyno'r cyflog byw gyda 86% yn dweud ei fod wedi gwella enw da eu busnes. (2) Cyd-daro â Phrifysgol Caerdydd yn bod yn Brifysgol Cymraeg y

flwyddyn yn 2018 **(3),** byddai hyn yn dangos pam bod Caerdydd yn lle eithriadol i astudio, a bod modd parhau i fynd ymhellach i roi'r profiad gorau i fyfyrwyr yng Nghymru.
2. Gan bod 93% o fyfyrwyr eisiau gweithio i gyflogwr cyflog byw, nawr yw'r amser perffaith i wireddu dymuniad myfyrwyr. **(4)**
3. Bod yr elw anhygoel y mae'r Undeb wedi'i wneud ar nosweithiau clwb wedi bod oherwydd gwaith caled a gwasanaeth anhygoel y gweithwyr a dylid rhannu'r elw hwnnw gyda'r myfyrwyr sy'n gweithio yno.

**Penderfyna'r CCB:**

1. Bod Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn gwneud cais i'r Sefydliad Cyflog Byw ar gyfer achredu Cyflog Byw cyn gynted ag y cymerir y camau angenrheidiol.
2. Bodd holl staff newydd a gyflogir gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn deryn Cyflog Byw o leiaf £8.75 yr awr. **(5)**
3. Bod holl staff a gyflogir yn uniongyrchol yn bresennol yn cael eu talu y cyflog byw erbyn 1af o Fai ar yr hwyrach er mwyn cyd-fynd â'r dyddiad cau ar gyfer dilyn y cyfradd cyflog byw diweddaraf.
4. Bod Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn dechrau cynllunio cyflogi holl gontractwyr ar y safle gyda chontractau cyflog byw erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2018/2019.

**Cynigydd:** Iain Cook

**Eiliwyd gan:** Elly Owen

(1) https://www.cardiff.ac.uk/news/view/69124-a-living-wage-employer
(2) https://www.livingwage.org.uk/good-for-business
(3) https://www.cardiff.ac.uk/news/view/937922-welsh-university-of-the-year-2018
(4) https://www.livingwage.org.uk/good-for-business
(5) https://www.livingwage.org.uk/what-real-living-wage

# CYNNIG TRI

## Ymgynghori â myfyrwyr ar bob lefel: Sedd ar BGP

**Mae'r CCB yn Nodi:**

1. Y Bwrdd Gweithredol Prifysgol (BGP) yw tîm uwch reolwyr Prifysgol Caerdydd ac yn gweithredu fel bwrdd cynghori ar gyfer yr Is Ganghellor. Mae'n cwrdd yn wythnosol.
2. Mae'r BGP yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r strategaeth, cynlluniau gweithredol, polisïau a gweithdrefnau, gosod cyllidebau, a monitro perfformiad a chyllid [1]. Mae llawer o'r meysydd hyn yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar brofiad myfyrwyr Caerdydd.
3. Mae aelodaeth bresennol y BGP yn cynnwys yr Is-Ganghellor, Dirprwy Is-Ganghellor, Dirprwy-Is Ganghellor (Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu), Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd), Dirprwy Is-Ganghellor (Rhyngwladol ac Ewrop), Dirprwy Is-Ganghellor (Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol), Dirprwy Is-Ganghellor (Coleg Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd), Dirprwy Is-Ganghellor (Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg), Prif Swyddog Gweithredu, Prif Swyddog Cyllid, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata, Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni [2]
4. Mae prifysgolion eraill ledled y DU yn cael cynrychiolaeth myfyrwyr ar eu BGP cyfatebol, gan gynnwys Prifysgol Manceinion, Prifysgol Bryste (2 Swyddog Sabothol), Prifysgol Birmingham (derbyn gwahoddiad i 1 o bob 6 BGP), Prifysgol Caergrawnt (2 Cynrychiolwyr Myfyrwyr), Prifysgol Durham (cael eu gwahodd pan fo angen), Prifysgol Queens (pan fo angen), Loughborough (gwahodd i bob 2/3 cyfarfod).
5. Mae Swyddogion Sabothol Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd wedi gofyn am gynrychiolaeth myfyrwyr ar y BGP ers 2013, fodd bynnag, mae o hyd wedi'i wrthod gan y Brifysgol ar y sail eu bod yn ymgynghori â myfyrwyr drwy wahanol sianelau.
6. Mae strategaeth sefydliadol bresennol Prifysgol Caerdydd "Y Ffordd Ymlaen 2012-2017" yn rhestru "atebolrwydd" fel un prif egwyddorion y brifysgol [3]
7. 'Mae'r Siarter Myfyrwyr 2017, a lofnodwyd gan y brifysgol, yn ymrwymo'r brifysgol i "wrando'n astud ar lais myfyrwyr er mwyn llywio cynllunio yn y dyfodol, creu awyrgylch dysgu sy'n bodloni disgwyliadau ein myfyrwyr a helpu llywio profiad ehangach myfyrwyr"[4].
8. Mae Llywyddion blaenorol Undeb y Myfyrwyr wedi nodi bod polisïau wedi'u penderfynu heb fewnbwn gan gynrychiolwyr myfyrwyr.

---

[1] https://www.cardiff.ac.uk/about/organisation/university-executive-board
[2] https://www.cardiff.ac.uk/about/organisation/university-executive-board
[3] http://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0015/10347/CU_TheWayForward_08.pdf T.7
[4] https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0009/871929/OurStudentCharter2017.pdf T.2

Cred y CCB:

1. Dylai fod lefel uchel o dryloywder rhwng y Brifysgol ag Undeb y Myfyrwyr, yn enwedig mewn materion sy'n effeithio ar brofiad y myfyrwyr.
2. Tra bod Swyddogion Sabothol yn eistedd ar nifer o bwyllgorau lefel uchel y brifysgol gan gynnwys Cyngor y Brifysgol, Senedd Prifysgol, pwyllgor Polisi ac Adnoddau a phwyllgor Safonau Academaidd ac Ansawdd, credwn bod angen clywed llais y myfyrwyr hefyd ar bobl lefel o'r brifysgol.
3. Mae gan y swyddogion etholedig fandad i gynnal llais myfyrwyr yn holl haenau o'r Brifysgol, yn enwedig pan ddaw i Fyrddau Cynghori'r Is-Ganghellor.
4. Mae cynrychiolaeth myfyrwyr ar y BGP yn cyd-fynd â nod datganedig y brifysgol i gynnwys llais myfyrwyr ar bob lefel o'r broses gwneud penderfyniadau.
5. Byddai cynrychiolaeth myfyrwyr ar y BGP yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu clywed ar y lefel uchaf, yn helpu'r brifysgol i wneud penderfyniadau gwell gyda mewnbwn gan bob rhanddeiliad a felly fe fydd yn arwain at gwell profiad prifysgol ar gyfer myfyrwyr am flynyddoedd i ddod.

Penderfyna'r CCB:

1. I fandadu swyddogion etholedig i lobïo'r brifysgol i gael cynrychiolaeth myfyrwyr ar Fwrdd Gweithredol y Brifysgol.
2. Bwrdd Gweithredol y Brifysgol i rhannu'r agenda gyda swyddogion etholedig.
3. BGP i wahodd o leiaf un swyddog etholedig pan fydd materion a drafodir yn effeithio ar brofiad y myfyrwyr.

**Cynigydd:** Fadhila Al Dhahouri, Is-Lywydd Addysg

**Eiliwyd gan:** Jake Smith, Is-Lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig

# CYNNIG PEDWAR

## Cymorth ariannol gwirioneddol i fyfyrwyr ôl-raddedig mewn angen

### Mae'r CCB yn Nodi

1. Mae yna 12,000 o fyfyrwyr ôl-raddedig ym Mhrifysgol Caerdydd.
2. Mae Prifysgol Caerdydd ar hyn o bryd yn gweithredu cynllun bwrsariaeth ar gyfer myfyrwyr o gefndiroedd incwm isel, hyd at £1,000 bob myfyriwr. Mae'n darparu cymorth ariannol i'r rheini o gartrefi lle mae'r cyfanswm incwm yn llai na £42,000[5]
3. Mae cynllun bwrsariaeth Prifysgol Caerdydd ar hyn o bryd dim ond yn agored i fyfyrwyr israddedig.
4. Nid yw Prifysgol Caerdydd yn cynnig unrhyw gymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig o gefndiroedd incwm isel ar hyn o bryd.
5. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arian ar gyfer prifysgolion Cymru i ddarparu bwrsarïau a grantiau ar gyfer ôl-raddedigion o Gymru o gefndiroedd incwm isel yn 2018/19 a 2019/20.
6. Ni fydd y cymorth ariannol hwn yn hygyrch i unrhyw fyfyrwyr o'r tu allan i Gymru yn wreiddiol.

### Cred y CCB

1. Bod astudiaeth ôl-raddedig yn gyfle datblygu hanfodol i nifer o fyfyrwyr, boed i ailhyfforddi mewn maes newydd o astudio neu arbenigo yn eu maes astudio presennol. Mae astudiaeth ôl-raddedig felly yn arf defnyddiol i ehangu cyfranogiad a dysgu gydol oes
2. Fodd bynnag, mae astudiaeth ôl-raddedig wedi bod yn anodd i fyfyrwyr fforddio ar draws y DU oherwydd diffyg cefnogaeth ariannol, boed hynny gan Lywodraethau neu sefydliadau.
3. Mae sefyllfa bresennol Prifysgol Caerdydd yn arwain at fyfyrwyr o gefndir incwm isel yn derbyn cymorth ariannol fel myfyriwr israddedig, ond wrth ddychwelyd i astudio gradd Meistr ychydig o fisoedd yn ddiweddarach, yn gweld bod cymorth hanfodol bellach wedi diflannu heb unrhyw ystyriaeth o newidiadau posib mewn incwm neu gefndir teuluol.
4. Nid yw'r benthyciadau a gynigir gan Llywodraethau'r DU a Chymru ar hyn o bryd yn amrywio gan ddibynnu ar incwm y teulu, sy'n golygu nad yw myfyrwyr o gefndir incwm isel yn derbyn mwy nag unrhyw fyfyriwr arall.

---

[5] https://www.cardiff.ac.uk/study/undergraduate/funding/bursaries

5. Er y croesawyd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch bwrsariaethau a grantiau, fe fyddant yn creu anghysondeb ym Mhrifysgol Caerdydd lle fydd myfyrwyr o Gymru â mynediad i fwrsarïau a grantiau, ond ni fydd myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig o rywle arall yn cael mynediad i unrhyw gymorth ariannol.
6. Dylai Undeb y Myfyrwyr sefyll yn falch dros gymorth ariannol i fyfyrwyr sydd ei angen fwyaf.

Penderfyna'r CCB

1. Bod Undeb y Myfyrwyr yn lobïo'r brifysgol i gyflwyno cymorth ariannol prawf modd ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig o gefndiroedd incwm isel.

**Cynigydd:** Jake Smith, Is-Lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig

**Eiliwyd gan:** Fadhila Al Dhahouri, Is-Lywydd Addysg

## CYNNIG PUMP

### Newidiadau i IL Cymdeithasau a IL Lles

**Mae'r CCB yn Nodi:**

1) Mae 7 Swyddog Sabothol; IL Lles, IL Addysg, IL Myfyrwyr Ôl-raddedig, IL Parc y Mynydd Bychan, IL Chwaraeon, IL Chwaraeon, Llywydd yr Undeb. Mae'r rhain yn gynrychiolwyr myfyrwyr llawn amser sy'n derbyn tâl sy'n cael eu hethol ym mis Chwefror.
2) Mae Gwirfoddoli Caerdydd yn is-elusen dwy flwydd oed o fewn Undeb y Myfyrwyr. Ar hyn o bryd mae ganddynt 69 o brosiectau a llynedd wedi ymgysylltu â 1,320 o fyfyrwyr.
3) Mae gennym 10 Swyddog Ymgyrch gyda'u cylchoedd gwaith yn bennaf yn cwmpasu materion cydraddoldeb, amrywiaeth a lles.
4) Llynedd fe wnaeth Senedd y Myfyrwyr basio cynnig yn galw am fwy o gydraddoldeb a chymorth ar gyfer myfyrwyr ymgyrch.

**Cred y CCB:**

1) Nid oes gan Gwirfoddoli Caerdydd swyddog sabothol dynodedig i gynrychioli'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y gwasanaeth. Credwn fod Gwirfoddoli Caerdydd yn weithgaredd myfyrwyr a fyddai'n elwa o arweinyddiaeth myfyrwyr.
2) Nid oes unrhyw swyddog sabothol ar hyn o bryd yn gyfrifol yn uniongyrchol am ddatblygu a chefnogi swyddogion ymgyrch yn ystod eu tymor. Credwn y byddent yn elwa o hyn, fodd bynnag ni fyddai hyn yn eu hatal rhag gweithio gydag unrhyw swyddogion sabothol eraill.

**Penderfyna'r CCB:**

1) Diwygio rôl IL Cymdeithasau i IL Gweithgareddau, sy'n cynnwys cymdeithasau a gwirfoddoli.
2) Diwygio rôl IL Lles i IL Lles ac Ymgyrchoedd sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol dros gefnogi a datblygiad y swyddogion ymgyrch.

**Cynigydd:** Hollie Cooke

**Eiliwyd gan:** Nick Fox